

Taflen Wybodaeth ar gyfer Arsylwi Uniongyrchol (16+)

Fy enw i yw: _____

Dyddiad heddiw: _____

Rwy'n fyfyrwr ar y rhaglen Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn rhan o fy astudiaethau, mae angen i mi gwblhau tri lleoliad wedi'u hasesu mewn lleoliadau gwaith cymdeithasol. Er mwyn pasio'r lleoliadau hyn, mae'n rhaid i mi lunio portffolio o dystiolaeth i ddangos sut rwy'n bodloni'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol ac yn cynnal y Côd Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol.

Beth yw arsylwi uniongyrchol?

Arsylwi uniongyrchol yw pan fydd gweithiwr cymdeithasol cymwys yn fy ngwylio wrth i mi wneud darn o waith gyda pherson neu deulu. Gallai hyn gynnwys ymweliad cartref, cyfarfod yn y swyddfa, neu alwad dros Teams. Y pwrpas yw rhoi adborth i mi a chefnogi fy natblygiad yn weithiwr cymdeithasol dan hyfforddiant.

Pam ydw i'n rhannu hyn gyda chi?

Hoffwn i gael fy arsylwi wrth weithio gyda chi. Eich penderfyniad chi yw hi yn llwyr. Os ydych chi'n penderfynu peidio â chymryd rhan, ni fydd hyn yn effeithio ar y gwasanaeth rydych chi'n ei dderbyn gan yr Awdurdod Lleol nac unrhyw sefydliad arall mewn unrhyw ffordd.

Os ydych chi'n cytuno:

- Gallwch chi newid eich meddwl ar unrhyw adeg, cyn neu yn ystod y sesiwn, heb roi rheswm.
- Ni fydd eich enw a'ch manylion personol yn cael eu cynnwys yn fy mhortffolio na fy ngwaith yn y brifysgol.
- Ar ôl y sesiwn, efallai y bydd y person sy'n fy arsylwi yn gofyn i chi sut aeth y sesiwn yn eich barn chi. Nid oes rhaid i chi roi adborth os nad ydych chi'n dymuno.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Os ydych chi'n hapus i barhau, gofynnir i chi lofnodi ffurflen ganiatâd.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, gofynnwch i mi neu fy Addysgwr Ymarfer. Gallwch chi hefyd gysylltu â:

Dr Dan Burrows

Arweinydd Dysgu Ymarfer, Prifysgol Caerdydd

E-bost: BurrowsDR1@caerdydd.ac.uk

Ffôn: 029 2087 5501

Diolch yn fawr am roi o'ch amser i ystyried hyn.